# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 3

TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN

## PENNOD 1

YSMYGU

*Mangreoedd di-fwg*

### 14 Darpariaeth bellach ynghylch mangreoedd di-fwg ychwanegol: anheddau

(1) Rhaid i reoliadau o dan adran 13 sy'n darparu i fangre a ddefnyddir yn rhannol fel annedd gael ei thrin fel mangre ddi-fwg at ddibenion y Bennod hon gydymffurfio â'r gofynion a ganlyn.

(2) Dim ond mewn perthynas â'r ardaloedd hynny o fangreoedd o'r fath nad ydynt yn gaeedig nac yn sylweddol gaeedig y caiff y rheoliadau wneud darpariaeth.

(3) Ni chaiff y rheoliadau ddarparu i'r ardaloedd hynny gael eu trin fel mangreoedd di-fwg oni bai—

- (a) eu bod yn weithleoedd (o fewn ystyr adran 7(2)), neu
- (b) eu bod ar agor i'r cyhoedd (o fewn ystyr adran 8(2)).

(4) Rhaid i'r rheoliadau ddarparu—

- (a) nad yw'r ardaloedd hynny i gael eu trin fel mangreoedd di-fwg ond pan y'u defnyddir fel man gwaith neu pan ydynt ar agor i'r cyhoedd, a
- (b) os dim ond rhan o ardal a ddefnyddir fel man gwaith neu sydd ar agor i'r cyhoedd, mai dim ond i'r graddau hynny y mae'r ardal i gael ei thrin fel pe bai'n ddi-fwg.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 14 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

### Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 14 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**I2** A. 14 mewn grym ar 1.3.2021 gan O.S. 2021/202, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 14 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2